
Llyfr Llafar gyda chôd QR

Brig y Goeden

# SAMI SGRAP

CAROLYN BEAR




SAMI SGRAP CAROLYN BEAR DRAKE

Lluniau gan John Prater
Addasiad Cymraeg gan Emily Huws


© Argraffiad Saesneg, Carolyn Bear 1996
ⓗ Argraffiad Cymraeg, Gwasg Addysgol Drake 2002
ⓗ Yr addasiad Cymraeg ACCAC

ISBN 0-86174-479-9

Cyhoeddwyd gan Wasg Addysgol Drake
Ffordd Sain Ffagan, Y Tyllgoed,
Caerdydd CF5 3AE
Ffôn: 029 2056 0333
Ffacs: 029 2056 4909
e-bost: drakegroup@btinternet.com
y we: www.drakegroup.co.uk

Argraffwyd yng Nghymru

# Pennod Un



Perchennog iard sgrap oedd Dafydd. Byddai pobl yn dod â phoptai nwy wedi torri a darnau o hen haearn rhydlyd a hen geir iddo. Roedd ganddo beiriant fedrai wasgu car i fod fawr mwy na set deledu.


Ond cyn gwasgu dim byd byddai Dafydd yn edrych yn ofalus rhag ofn fod yno unrhyw ddarn oedd yn werth ei gadw.

Dyna sut cafodd o'r syniad o wneud Sami Sgrap.




Unwaith roedd o wedi cael y syniad, doedd dim dal arno. Treuliai ei holl amser sbâr yn y cwt yn gweithio ar beth fyddai y dyn mecanyddol mwyaf anhygoel a wnaed erioed.

Gwnaeth freichiau i Sami Sgrap fedrai ymestyn yn llawer pellach na rhai dyn cyffredin.




Rhoddodd goesau telesgopig iddo fedrai ymestyn allan yn hir, pan fyddai angen cyrraedd rhywbeth yn uchel i fyny.

Yr ymennydd oedd y rhan anoddaf. Bu Dafydd yn gweithio ar hwnnw am wythnosau. Defnyddiodd gylchedau o hen set deledu a darnau o negesyddion electronig. Rhoddodd lais peiriant ateb teleffon iddo.




Ac yna, bu'n andros o lwcus - cafodd hyd i berfedd Trefnydd Personol. Defnyddiodd hwnnw fel cof. Sgriwiodd nhw i gyd at ei gilydd. Cysylltodd y gwifrau a sodro'r cysylltiadau. Doedd o ddim yn ymennydd gwych. Ond roedd yn ymennydd.

Yr unig beth arall i'w wneud oedd cael Sami Sgrap i weithio. Ar gyfer hyn cafodd hyd i fatri car oedd bron yn newydd. Gosododd o yng nghanol Sami Sgrap a chysylltodd ddwy wifren danio.




Roedd hi'n hwyr iawn erbyn iddo gael pob gwifren i'w lle a Sami Sgrap yn barod i gychwyn. Teimlai Dafydd yn flinedig iawn, iawn. Sychodd ei ddwylo a syllu'n falch ar ei ddyn mecanyddol rhyfeddol.



Bwriadai ddod yn ôl yn y bore i gysylltu pen arall y gwifrau tanio i fatri yn ei fan. Yna, os oedd o wedi gwneud popeth y dylai, ac wedi gwneud y cysylltiadau i gyd yn gywir - byddai Sami Sgrap yn dod yn fyw! Dyna a obeithiai, beth bynnag. Credai'n siŵr mai dyna a ddigwyddai.

# Pennod Dau



Y noson honno tra oedd Dafydd yn cysgu, cododd yn storm fawr o fellt a tharanau. Dyrnodd y taranau. Bron na holltodd y mellt yr awyr yn ddwy. Chlywodd Dafydd ddim o gwbl gan ei fod wedi blino gymaint.

Ond yn y cwt roedd rhywbeth syfrdanol yn digwydd.

CRRAC! Clindarddodd llafn igam-ogam o fellten drwy'r ffenest gan daro Sami Sgrap yn syth yng nghanol ei fatri.





Cododd Sami Sgrap yn syth i fyny ar ei eistedd gan daro'i ben ar y nenfwd.

"Od iâr," meddai. "Blêr ydw i?"

Ac yna meddai, "Wy pydw i?"

Oherwydd, doedd yr ymennydd roedd Dafydd wedi ei wneud iddo ddim yn ymennydd da o gwbl.





Yna edrychodd Sami Sgrap i lawr a darllenodd beth roedd Dafydd wedi ei ysgrifennu ar ei frest - SAMI SGRAP.

Ac yna, yn falch, dywedodd: "Sami Sgrap pydw i."

Cododd oddi ar y fainc a sefyll yn ei lawn daldra. Aeth ei ben yn syth drwy do'r cwt. Ond frifodd o ddim oherwydd, yn ffodus, doedd Dafydd ddim wedi meddwl am roi nerfau iddo gael teimlo â nhw.


Ysgydwodd ei hun yn rhydd o sgerbwd y cwt a brasgamodd ar draws yr iard sgrap.




"Eddrhyf iawn," meddai Sami Sgrap gan edrych ar y llanast. "Od iâr. Od iâr."

Dringodd dros y giât a gwelodd oleuadau stryd dafliad carreg i fyny'r ffordd.

"O yfryd hiawn," meddai Sami Sgrap a cherddodd i fyny'r ffordd fwdlyd gan adael stribed o ôl traed od iawn y tu cefn iddo.



Roedd y ffordd yn mynd at dŷ mawr ynghanol coed â gardd o'i amgylch. Roedd yno olau mewn ffenest uchel iawn. Ymestynnodd Sami Sgrap ei goesau i'w llawn hyd ac edrych drwy'r ffenest.




Drwyddi, gwelodd eneth yn cysgu mewn gwely.


"Gethen chaf," meddai Sami Sgrap gan feddwl mor hyfryd a glân yr edrychai yn cysgu'n drwm.

Yna, mewn fflach o olau mellten gwelodd adlewyrchiad o'i wyneb ei hun yn y ffenest. Gwelodd sut y gwnaed o allan o hen ddarnau budron o beiriannau ac roedd arno gywilydd ohono'i hun.

"Am pydw i rom hyll?" gofynnodd iddo'i hun.



Roedd ar fin troi ymaith yn ddistaw bach ar flaenau'i draed. Ond ar hynny, gweithiodd bollten nad oedd Dafydd wedi ei gosod yn ofalus yn rhydd yn ei ben a syrthio ar y ffenest - clec!



Deffrodd yr eneth. Enid oedd ei henw hi.

"Be oedd hwnna?" meddai.

Ac yna gwelodd wyneb Sami Sgrap yn y ffenest.

Rŵan, byddai unrhyw eneth arall heblaw Enid wedi sgrechian a rhuthro i lawr at ei rhieni. Ond nid Enid. Roedd Enid wedi bod yn disgwyl ac yn disgwyl i antur ddigwydd iddi hi.


Wel, yn ôl pob golwg dyma hi!

Dringodd o'r gwely a cherdded at y ffenest.

"Helo," meddai hi.

"L.O." meddai Sami Sgrap.

"Pwy wyt ti?" gofynnodd Enid.



"Sami Sgrap," meddai Sami Sgrap. "Wy pwy Ti?"

"Enid," atebodd Enid.

"N. Id." copïodd Sami Sgrap.


"Be wyt ti'n wneud yn fan'ma?" gofynnodd Enid.

Edrychodd Sami Sgrap o'i amgylch, yn meddwl beth roedd o'n ei wneud. Roedd y taranau yn dal i daranu ac roedd hi wedi dechrau bwrw glaw.

"Dech rau gwly chu," meddai Sami Sgrap. Ac ysgydwodd ei hun i gael gwared â'r glaw.


GWICH ... CRINSH ... CRENSH! Roedd cymalau Sami Sgrap yn gwneud synau sgrechian erchyll.

"Od iâr," meddai Sami Sgrap.




"O bechod! Fiw iti wlychu. Byddi di'n rhydu," meddai Enid.


A rhedodd i lawr y grisiau ac allan i'r ardd i agor drysau'r garej.



Yn ffodus doedd dim car i mewn yno. Roedd car rhieni Enid yn un o'r rheini oedd wedi mynd i iard sgrap Dafydd am ei fod mor hen a rhydlyd.

"Brysia, tyrd i mewn," meddai hi wrth Sami Sgrap.

Roedd yn rhaid i Sami Sgrap blygu ei hun bron yn ei hanner i fynd i mewn i'r garej. Ond roedd hi'n sych braf y tu mewn ac eisteddodd i lawr yn ddiolchgar ar y llawr.




Sychodd Enid o gystal ag y medrai hi efo hen gadach. Yna cafodd hyd i debot olew ac oeliodd ei gymalau er mwyn


"O. D.Olch." meddai Sami Sgrap gan ymestyn ei goesau a'i freichiau. "D.Olch. N. Id."

Ysgydwodd Enid ei phen.


"Sami Sgrap druan," meddai hi. "Fydd neb yn dy ddeall os byddi di'n siarad fel yna. Bydd yn rhaid iti ddysgu siarad fel person go iawn."

"Fel pers ongo iawn?" gofynnodd Sami Sgrap.

"Nage," meddai Enid. "Fel person go iawn."



"Od  iâr," meddai Sami Sgrap.




"Ac nid Od  iâr ydi o," meddai Enid. "O diar ydi o."

"O diar," meddai Sami Sgrap yn ofalus. "D. Olch N.Id."

Ac yna ceisiodd ei ddweud yn gyflymach, "O diar. O diar. O diar. Od iâr. Od iâr." Yna ochneidiodd. "Od iâr."

"Sami Sgrap druan," meddai Enid. "Dal ati i ymarfer nes byddi di'n ei ddweud yn iawn."

Aeth ymlaen, "Ond fedri di ddim aros yma am byth. Fedri di ddim cofio o ble doist ti? Neu i bwy rwyt ti'n perthyn?"




Chwiliodd Sami Sgrap druan drwy'i ymennydd ond fedrai o ddim cofio dim byd.


"W nidd im," atebodd Sami Sgrap yn drist. Peth ofnadwy ydi peidio â gwybod o ble rwyt ti'n dod nag i bwy rwyt ti'n perthyn.

"Wel aros yn fan'ma. Paid â symud nes dof i'n ôl o'r ysgol," meddai Enid.


"Y.Sgol?" meddai Sami Sgrap. "Be. D. Y. Sgol?"

"Adeilad mawr lle rwyt ti'n mynd i ddysgu pethau. Dwyt ti'n gwybod dim byd, nag wyt?"

Ysgydwodd Sami Sgrap ei ben yn drist. Ymennydd sobor iawn oedd ganddo druan.




# Pennod Tri



Y bore hwnnw deffrodd Dafydd ac aeth i'r cwt dan chwibanu'n hapus. Roedd heddiw yn mynd i fod yn ddiwrnod mawr iddo - y diwrnod y byddai'n gwneud i'w ddyn mecanyddol rhyfeddol weithio.


Medrwch chi ddychmygu'r braw gafodd o pa welodd fod y cwt yn wag a bod clamp o dwll mawr yn y to.


"Mae'n rhaid fod rhywun wedi ei ddwyn!" meddyliodd Dafydd. Deialodd 999 y munud hwnnw.

"Ar goll. Dyn mecanyddol tua phum metr o daldra. Heb ei weld ers neithiwr," meddai wrth yr heddlu.

Cyrhaeddodd chwech o geir heddlu yn fuan. Dringodd deuddeg plismon allan gyda'u cŵn synhwyro.

Sylwon nhw ar ôl traed Sami Sgrap yn fuan iawn.




Crafodd Dafydd ei ben. Prin y coeliai ei lygaid ei hun.

"Mae'n edrych fel petai wedi cerdded oddi yma," meddai.


Felly i ffwrdd â cheir yr heddlu i lawr y ffordd, â phob seiren yn sgrechian, i ddilyn yr olion traed.



Eisteddodd Sami Sgrap yng ngarej N.Id wedi hen laru. Dyfalodd pa mor hir y byddai N.Id yn yr ysgol. Dyfalodd sut le oedd mewn ysgol. Roedd N.Id wedi dweud ei bod hi yn mynd yno i ddysgu. Efallai y dylai o fynd i'r ysgol i ddysgu sut i siarad fel pers ongo iawn.


O'r diwedd fedrai o ddim dioddef rhagor. Roedd yn benderfynol o gael hyd iddi. Os oedd yr ysgol yn adeilad mor fawr, fyddai ddim yn anodd iawn cael hyd iddo.

Cododd ar ei draed a chrashio drwy do'r garej. Yna ciciodd y drysau o'r neilltu, brasgamodd ar draws yr ardd ac aeth i lawr y ffordd. Rhedodd mam Enid at y ffenest mewn pryd i weld ei gorff mawr trwsgwl yn diflannu o amgylch y tro.




Doedd yr ysgol ddim yn bell. Clywai Sami Sgrap sŵn lleisiau'r plant yn gweiddi wrth chwarae ar y buarth. Ac yno, fel roedd o'n mynd rownd y tro, yn sicr ddigon, roedd adeilad mawr iawn.

Rhedai llawer o blant yn ôl ac ymlaen o'i flaen, yn chwarae. Croesodd y ffordd i fynd ato a stopiodd fflyd o draffig a'r breciau'n sgrechian. Gollyngodd dynes lolipop ei lolipop a rhedodd oddi yno nerth ei thraed.





Neidiodd pobl i gysgodi yn y siopau. Rhythodd pobl wedi eu trapio mewn ceir a bysiau arno mewn arswyd.


"Od iâr," meddai Sami Sgrap. "Od iâr. Od iâr. Od iâr."



A brysiodd tuag at yr ysgol cyn gyflymed ag y medrai ei draed mawr ei gario.

Cyrhaeddodd Sami Sgrap ffens yr ysgol a sbecian drosodd. Stopiodd y plant chwarae a rhythu. Ac yna dechreuodd un o'r rhai lleiaf grio ac wedyn roedden nhw i gyd wedi dychryn a dechreuodd pawb redeg i bob cyfeiriad. Pawb, hynny yw, heblaw Enid.







Safodd hi yng nghanol y buarth. "Sami Sgrap," meddai hi, "be wyt ti'n feddwl wyt ti'n wneud fan'ma?"

Dyna falch oedd Sami Sgrap o'i gweld hi. Dringodd dros y ffens a thrampiodd tuag ati.

Ac ar hynny cyrhaeddodd Dafydd a mam Enid - gyda'r chwe char heddlu, a'r deuddeg plismon, a'r cŵn synhwyro, a dwy injan dân oedd wedi ymuno i helpu.

Datododd y dynion tân eu pibellau dŵr.





"Od iâr ...!" meddai Sami Sgrap. Roedd o'n poeni'n ofnadwy. Roedd o ac N. Id yn sefyll yng nghanol y buarth. Symudai'r plismyn a'r cŵn tuag atyn nhw. Yn ei ymennydd sgrap druan dywedai rhywbeth wrth Sami Sgrap fod N. Id mewn perygl.

Gwelai Sami Sgrap y dŵr yn saethu allan o'r pibellau. Doedd o ddim eisiau i N. Id fynd yn stiff ac yn rhydlyd fel fo.

Plygodd Sami Sgrap i lawr ac yn dyner iawn cododd Enid oddi ar y ddaear. Daliodd pawb eu gwynt a sgrechiodd y plant. Cadwodd y bobl draw a thawodd pob seiren ar geir yr heddlu. Tawelodd y dyrfa.



Gwyliodd pawb heb feiddio anadlu bron fel y cerddai Sami Sgrap draw at y ddihangfa dân.




Gam wrth gam, ris wrth ris, dringodd, gan gydio yn N.Id, yn ei dal cyn uched ag y medrai i'w chadw'n ddiogel.

"Rho fi i lawr, Sami Sgrap," gwaeddodd Enid.

"Od iâr, na," meddai Sami Sgrap. "Sami Sgrap dai awn. Cadw N.Id rhag gwlychu."

Pan gyrhaeddodd y top o'r diwedd, dringodd ar y to gan gydio yn Enid yn dynn yn ei law.

Gwyliodd y dyrfa mewn distawrwydd arswydus.


Cerddodd pennaeth yr heddlu ymlaen gyda chorn siarad.

"Rho'r eneth i lawr a ddaw dim niwed iti," rhuodd.




Edrychodd Sami Sgrap ar y plismon, edrychodd ar bob injan dân, edrychodd ar N.Id. Wyddai o ddim beth i'w wneud.


"Od iâr," meddai.



Gwthiodd Dafydd, oedd yn gwylio islaw, ei hun i flaen y dyrfa a chychwyn dringo i fyny'r ddihangfa dân. Daliodd pawb eu gwynt ac fel roedd Dafydd yn cyrraedd y pen uchaf, rhoddodd ei law allan i ofyn am dawelwch.




"Mae'r eneth yn berffaith ddiogel," gwaeddodd ar y dyrfa. "Fi sydd wedi gwneud Sami Sgrap. Fyddai o byth yn brifo neb. Rydw i wedi dod yma i fynd ag o adref lle mae o i fod."



Edrychodd Sami Sgrap ar Dafydd. Edrychodd ar N.Id. Methai'n glir â chredu'r hyn a glywai.

"Mae o'n iawn," gwaeddodd Enid. "Efallai fod o'n edrych yn ddychrynllyd ond mae o'n garedig ac yn dyner ac..." Tawodd am funud ac edrych ar Sami Sgrap. "Mae'n ffrind i mi."

Prin y credai Sami Sgrap fod rhywun yn dweud rhywbeth mor hyfryd amdano. Yn sydyn, doedd o ddim yn teimlo'n fudr ac yn rhydlyd mwyach. Beth oedd ots os oedd o wedi cael ei wneud o hen ddarnau sgrap? Doedd neb yn malio!




Felly gwyliodd y plismyn a'r dynion tân a'r cŵn synhwyro i gyd tra oedd Dafydd ac Enid yn mynd â Sami Sgrap yn ôl i'r iard sgrap.


"Od iâr. Od iâr," meddai Sami Sgrap pan welodd y llanast roedd o wedi ei wneud o'r cwt.

Ond yna, pan welodd yr holl ddarnau handi roedd Dafydd wedi eu cadw y tu mewn i'r cwt meddai: "Dai awn. Dai awn."

Ac aeth ati y munud hwnnw i chwilota am ddarnau o hyn a'r llall i drwsio'r to.




Ymhen fawr o dro dysgodd droi'i law at wneud hyn a'r llall. Gallai wneud yr holl bethau oedd yn rhy galed neu'n rhy drwm neu'n rhy uchel i Dafydd eu gwneud.



A byddai Enid yn dod bob dydd Sadwrn i roi gwersi siarad iddo.

Erbyn y diwedd roedd wedi dod i siarad yn dda iawn. Medrai hyd yn oed ddweud pethau hynod o anodd fel 'trosglwyddiad otomatig' a 'gwifrau sbardun,' a 'gwerthyd gam' - geiriau hynod o handi yn yr iard sgrap.

Ond pan fyddai'n cynhyrfu am unrhyw reswm, yr unig beth fedrai o'i ddweud fyddai: "Od iâr, od iâr, od iâr."



# SAMI SGRAP

"Od iâr," meddai Sami Sgrap.
"Wy pydw i?"
Sut caiff o wybod, yn arbennig
gan nad ydi Dafydd wedi rhoi
ymennydd da iawn iddo ...?



Brig y Goeden

Coeden
Ddarllen
Rhydychen

Cam 12

ISBN 0-86174-479-9

DRAKE

ISBN 0-86174-479-9
9 780861 744794